



Ein cyf/Our ref: OQ58599

8 Tachwedd 2022

Annwyl bawb,

Rwy'n ysgrifennu atoch chi oherwydd, yn ystod y sesiwn gwestiynau yn y Senedd ar 25 Hydref, codwyd y mater o reoli glaswellt ar ymylon ffyrdd ac ardaloedd amwynder, a Pharthau Buddsoddi Llywodraeth y DU yng ngogledd Cymru.

Hoffwn eich llongyfarch ar eich ymdrechion i ddefnyddio arferion 'torri a chasglu' ar gyfer torri'r glaswellt ar ymylon ffyrdd, gan helpu'r mannau gwyrdd rydych yn eu rheoli i fod yn fwy amrywiol o ran bioamrywiaeth ac i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Rwyf wrth fy modd bod cyllid gan Leoedd Lleol ar gyfer Natur yn eich helpu i reoli tir ac i roi'r cyfle gorau posibl i flodau gwyllt prin a chyffredin dyfu.

Mae'r gwaith hwn i gefnogi bywyd gwyllt nawr yn fwy hanfodol bwysig nag erioed oherwydd bod amrywiaeth yn dirywio, gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Mae newid arferion torri glaswellt ar ymylon ffyrdd ac ardaloedd amwynder yn rhoi cyfle i bobl gysylltu'n well â natur a gweld blodau gwyllt

Mae ardaloedd amwynder ac ymylon ffyrdd blodeuog, a'u pwysigrwydd ar gyfer peillwyr a bywyd gwyllt arall, yn cael eu gwerthfawrogi yn fwyfwy. Fodd bynnag, mae rhai trigolion a defnyddwyr ffyrdd o'r farn eu bod yn creu golwg anniben ac wedi'i esgeuluso. I ddangos cefnogaeth Llywodraeth Cymru ac i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith mai er mwyn achub bywyd gwyllt yr ydyn ni'n newid arferion torri glaswellt, rydyn ni wedi datblygu'r ymgyrch 'Iddyn Nhw'. Mae ganddi amrediad o adnoddau y gellir eu defnyddio i drafod newidiadau i arferion torri â thrigolion a grwpiau cymunedol. Gallwch bersonoli'r adnoddau drwy ychwanegu eich logos a'ch manylion cyswllt. Maen nhw ar gael yma:

<https://llyw.cymru/iddyn-nhw-pecyn-cymorth-i-randdeiliad>.

O ran Parthau Buddsoddi, mae'r manylion a'r wybodaeth a roddwyd hyd yma ynghylch cynigion Llywodraeth y DU wedi bod yn gyfyngedig. Wrth inni weithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall y cynigion, byddwn am ddeall y goblygiadau posibl i Gymru. Rydyn ni'n ceisio sicrwydd cadarn y byddai Parthau Buddsoddi, fel Porthladdoedd Rhydd, yn alinio â pholisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith teg a chynaliadwyedd, ac ymrwymiad i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut byddai hynny'n gweithio'n ymarferol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r system gynllunio wedi'i datganoli i weinidogion Cymru. Byddai rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer Parthau Buddsoddi barchu fframwaith deddfwriaethol a fframwaith polisi presennol Cymru ar gyfer cynllunio. Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu fframwaith cynhwysfawr sy'n cefnogi anghenion cymunedau ac yn arwain datblygiadau a thwf yn y manau cywir, wrth ddiogelu a helpu natur i wella ar yr un pryd. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol weithredu yn unol â Chymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru, ac wrth wneud hynny sicrhau bod cadernid ecosystemau a lles yng nghanol eu penderfyniadau.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Brif Weithredwyr yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint ac Wrecsam.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD